

Strategaeth ddrafft iechyd meddwl a llesiant meddyliol i Gymru: asesiad effaith integredig

Adran 1: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn ddrafft o Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a fydd yn disodli'r strategaeth ddeng mlynedd flaenorol, [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#). Rydym hefyd yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft o Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwedio, a fydd yn disodli [Siarad â fi 2: cynllun gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru 2015-2022](#).

Nod y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yw gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant meddyliol pobl yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth gyffredinol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant meddyliol yng Nghymru, ynghyd â phedwar datganiad o weledigaeth allweddol, egwyddorion ategol, a chyfansoddiad o gamau gweithredu lefel uchel i gefnogi'r gwaith o'i rhoi ar waith.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd, rydym wedi ystyried a chymhwyso'r pum ffordd o weithio sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (fel y nodir isod).

Fel rhan o'r ymgynghoriad, ac i gyd-fynd â'r Asesiad Effaith Integredig hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau drafft o Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Hirdymor

Dangosodd [Adolygiad o Strategaethau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â Fi 2 \(2012-2022\)](#) rywfaint o welliant o ran iechyd meddwl a llesiant meddyliol y boblogaeth, cyn Covid o leiaf. Fodd bynnag, mae effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol yn dal i gael eu teimlo, ynghyd ag effeithiau'r argyfwng costau byw presennol. Mae nifer cynyddol o bobl yn ceisio cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl, ac rydym yng nghanol y "sefyllfa ariannol fwyaf heriol yr ydym wedi ei hwynebu ers datganoli".¹ Mae heriau ehangach hefyd yn bodoli - er enghraifft, anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, profiadau a chanlyniadau; yr angen parhaus am gydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol; yr angen i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi pobl yn yr ysbyty ac yn y gymuned; a darparu gweithlu cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau hirdymor hyn. Mae'r camau sy'n cefnogi Datganiad o Weledigaeth 1 yn canolbwyntio ar nodau craidd hyrwyddo llesiant meddyliol cadarnhaol, gwella mynediad at weithgareddau hybu llesiant meddyliol, a chryfhau ymhellach ein

¹ Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y Gyllideb 2023-24 (9 Awst 2023) | LLYW.CYMRU

dealltwriaeth o'r hyn a allai atal iechyd meddwl a llesiant meddyliol gwael. Mae'r camau sy'n cefnogi Datganiad o Weledigaeth 2 yn cwmpasu cyfraniadau trawslywodraethol i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd, o ystyried eu heffaith sylfaenol ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Mae Datganiad o Weledigaeth 3 yn ymwneud â chael system gysylltiedig sy'n cefnogi pobl i gael gafael ar yr help cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir. Mae Datganiad o Weledigaeth 4 yn ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd ar sail tystiolaeth yno i bawb a fyddai'n elwa arnynt, a sut y mae angen iddynt fod yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar adferiad.

Atal

Mae hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant meddyliol da yn parhau i fod yn nodwedd bwysig o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd, ac mae'n parhau i adlewyrchu pwysigrwydd symud i ffwrdd o feddwl am iechyd meddwl mewn ffordd glinigol, tuag at ei wneud yn rhan o sgysiau bob dydd. Mae ffocws ar fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd meddwl a llesiant meddyliol, gyda gweithredu trawslywodraethol i ddiogelu iechyd meddwl a llesiant meddyliol wedi'u llunio o gwmpas **Egwyddorion Marmot**. Mae'r egwyddorion hyn yn ymwneud â rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn; galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y mwyaf o'u galluoedd a sicrhau rheolaeth dros eu bywydau; creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb; sicrhau safon byw iach i bawb; creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy; a chryfhau rôl ac effaith atal afiechyd.

Integreiddio

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cyd-fynd yn uniongyrchol â nodau **Cymru Iachach** a'r **Ddyletswydd Ansawdd** i wella ansawdd gwasanaethau.

Mae Datganiad o Weledigaeth 2 yn cydnabod y ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol, ac i'r gwrthwyneb. Mae Datganiad o Weledigaeth 3 yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu system gysylltiedig, lle bydd pobl yn cael y lefel briodol o gymorth pryd bynnag y byddant yn ei geisio. Mae'n cefnogi'r egwyddor o integreiddio drwy nodi sut rydym eisiau i'r system iechyd meddwl weithio – ac mae hynny'n cynnwys darparu mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir, ac yn y lle cywir i'r unigolyn. Mae Datganiad o Weledigaeth 4, a'i ffocws ar ddarparu llwybrau iechyd meddwl di-dor, yn cyd-fynd yn llawn â'r Ddyletswydd Ansawdd, a'r Safonau Gofal ac Ansawdd.

Cydweithio

Rydym yn cydnabod y rhanddeiliaid amrywiol sydd â rôl i'w chwarae wrth wireddu nodau'r ddwy strategaeth. Mae ein partneriaid yn cynnwys y cyhoedd a phobl sydd â phrofiad bywyd, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a'r trydydd sector.

Rydym wedi bod yn cynllunio datblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd ers i Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl gael ei ddiweddarau ddiwethaf yn sgil y pandemig yn 2020. Mae gwaith paratoi i lywio cynlluniau olynol wedi cynnwys nifer o adolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl sydd wedi llywio ein hymateb.² Gyda'i gilydd, mae'r adolygiadau hyn wedi crynhoi barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ymarferwyr, darparwyr cyflenwi gwasanaethau a'r cyhoedd i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr i lywio cynllunio yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus wrth ddatblygu polisiau sylfaenol y strategaeth newydd, ac wedi ymateb i nifer o Argymhellion Pwyllgor y Senedd ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu'r **Fframwaith NYTH**, gwasanaeth **111 Pwyso 2 GIG Cymru** ar gyfer cymorth iechyd meddwl brys, a **Chynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol** AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cyfranogi

Yn ystod haf 2023, cynhaliwyd gwaith ymgysylltu cyn-ymgyngori i gael adborth cychwynnol gan rhanddeiliaid ar y datganiadau o weledigaeth arfaethedig a'r egwyddorion ategol, ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Roedd yn cynnwys arolwg ar-lein, a gwblhawyd gan dros 250 o unigolion a sefydliadau.

O dan bob un o'r Datganiadau o Weledigaeth ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, rydym wedi casglu barn rhanddeiliaid a'r themâu allweddol o'r ymgysylltu cyn-ymgyngori. Byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i ymgysylltu ymhellach â'r rhai sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu camau gweithredu ar gyfer cefnogi cynlluniau cyflawni.

Effaith

Mae cefnogaeth i ddatblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd, sydd yn cael eu datblygu'n gydweithredol gyda'n partneriaid.

Daeth yn amlwg o'r Adolygiad o Strategaethau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â Fi 2 fod angen gwelliannau pellach i wasanaethau a chymorth iechyd meddwl, newidiadau i'r system a gweithredu trawslywodraethol, er mwyn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig o wella iechyd meddwl a llesiant meddyliol poblogaeth Cymru. Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd yn ceisio cryfhau ein dull gweithredu yng

² Mae hyn yn cynnwys [Adolygiad Cenedlaethol o Alw a Gweithgaredd Gofal Sylfaenol Iechyd Meddwl](#); [Adolygiad o'r Dystiolaeth ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Pob Oed](#); ymchwil ar brofiadau pobl ifanc wrth bontio o iechyd meddwl plant i iechyd meddwl oedolion; [Adolygiad Cenedlaethol o Fynediad at Wasanaethau Brys i'r Rheiny sy'n Profi Pryderon Iechyd Meddwl a/neu Lesiant](#); ac [Adolygiad Gwneud i'r Dyddiau Gyfrif](#).

Nghymru drwy osod Datganiadau o Weledigaeth newydd – sy'n cynnwys ffocws penodol ar y ffordd y bydd gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl (a hunanladdiad a hunan-niweidio) yn cael eu darparu.

Costau ac Arbedion

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddylol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cael eu datblygu mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol ac felly rydym wedi eu datblygu gyda'r ddealltwriaeth y bydd angen ffordd o osod blaenoriaethau, sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau sy'n bodoli'n barod a chyfle i fod yn glir ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig.

Bydd cynlluniau cyflawni yn cyd-fynd â fersiynau terfynol y ddwy strategaeth a fydd, dros oes y strategaethau, yn cael eu hadnewyddu a'u diweddarau.

Adran 8: Casgliad

Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn ei ddatblygiad?

Rydym wedi datblygu fersiynau drafft o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddylol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio mewn cydweithrediad â'r rhai sydd â phrofiad bywyd. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau allweddol, gan gynnwys Fforwm Defnyddwyr y Gwasanaethau Iechyd Meddwl, y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol. Rydym hefyd wedi ystyried canfyddiadau ymgynghoriadau diweddar eraill, gan gynnwys ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fersiwn ddrafft o **Strategaeth Tlodi Plant Cymru**.

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol wedi bod yn ymwneud yn agos â datblygiadau ym maes polisi a darpariaeth iechyd meddwl yng Nghymru. Yn fwyaf amlwg, mae wedi cydgynhyrchu'r Fframwaith NYTH, elfen allweddol o'r strategaeth newydd, yn ogystal â chyfrannu at y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd a Llesiant Emosiynol, un arall o elfennau sylfaenol y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddylol. Mae adroddiad **Meddyliau Iau o Bwys** Senedd Ieuencid Cymru wedi cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth sylfaenol wrth greu'r fersiwn ddrafft, ynghyd â hyn: ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliodd y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol grŵp ffocws i gynnig adborth ar y datganiadau o weledigaeth drafft. Roedd yr adborth gan y grŵp yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o ymwybyddiaeth o anhwylderau bwyta, hunanladdiad a hunan-niweidio mewn ysgolion ac i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl â diagnosis iechyd meddwl a niwroddatblygiad yn cyd-ddigwydd. Bu Mind hefyd yn cynnal gwaith ymgysylltu â phobl ifanc a lywiodd y gwaith o ddrafftio'r strategaeth. Cynhaliwyd gweithdai ychwanegol gyda phlant a phobl ifanc, Senedd Ieuencid Cymru, a'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid Cenedlaethol yn y cyfnod cyn cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r strategaeth.

Byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i ddatblygu ar yr ymgysylltu blaenorol hwn. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu pellach â phlant a phobl ifanc, pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg arbenigol, ac eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Effeithiau bwriadedig y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yw gwell iechyd meddwl a llesiant meddyliol pobl Cymru.

Effeithiau cadarnhaol

Datganiad o Weledigaeth 1 y strategaeth yw bod pobl yn meddu ar yr wybodaeth, yr hyder a'r cyfleoedd i ddiogelu a gwella iechyd meddwl a llesiant meddyliol. Mae'r datganiad hwn yn nodi sut y byddwn yn rhoi cyfle i bobl weithredu i gefnogi eu llesiant meddyliol eu hunain a llesiant meddyliol eu cymunedau. Rydym yn diffinio llesiant meddyliol, sy'n elfen bwysig o sefydlu geirfa gyffredin ar gyfer iechyd meddwl, ac yn rhan o osgoi termau gorfeddygol. Mae camau ategol yn canolbwyntio ar nodau craidd hyrwyddo llesiant meddyliol cadarnhaol, gwella mynediad at weithgareddau hybu llesiant, a chryfhau ymhellach ein dealltwriaeth o'r hyn a allai amddiffyn yn erbyn cyflyrau iechyd meddwl a llesiant meddyliol gwael.

Datganiad o Weledigaeth 2 y strategaeth yw bod gweithredu'n digwydd ar draws y Llywodraeth i ddiogelu iechyd meddwl a llesiant meddyliol cadarn. Mae'r datganiad hwn yn amlygu penderfynyddion ehangach (cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd) iechyd sy'n effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n llesiant meddyliol. Rydym yn crynhoi ymrwymïadau trawslywodraethol sydd ar waith i sbarduno gwelliannau yn y penderfynyddion ehangach hyn, a fydd wedyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol.

Datganiad o Weledigaeth 3 y strategaeth yw bod system gysylltiedig ar waith lle bydd pawb yn cael y lefel briodol o gymorth ble bynnag y maent yn ei geisio. Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod pobl yn cael cymorth gan wasanaeth cydgysylltiedig sy'n hawdd ei gyrchu ac sy'n hawdd ei ddefnyddio. Dylai gwasanaethau gefnogi pobl i ddod o hyd i'r cymorth cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir. Rydym yn ceisio cael **system gysylltiedig** ar waith a sicrhau bod yr hyder a'r wybodaeth gan y bobl sy'n darparu gwasanaethau i ymgysylltu â phobl sydd angen cymorth iechyd meddwl, a bod hynny'n cyd-fynd ag egwyddorion **Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma**. Mae'r adran hon hefyd yn cydnabod bod lle i wella'r ffordd bresennol o gael gfael ar gymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol, ac nad yw bob amser yn gweithio fel system gysylltiedig. Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn dweud eu bod wedi profi cael eu "bownsio" rhwng gwasanaethau, wedi clywed eu bod wedi dod i'r lle anghywir am gefnogaeth neu wedi gorfod ail-adrodd eu cefndir a'u hanes nifer o weithiau.³ Ar ôl gwrandao ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud, ac er mwyn ymateb i'r

³ Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant – Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)

materion hyn, mae Datganiad o Weledigaeth 3 yn tynnu sylw at y ffaith ein bod ni wedi cydgynhyrchu **Fframwaith NYTH**, gyda phobl ifanc a theuluoedd, er mwyn rhoi dull cysylltiedig ar waith o ran gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant meddyliol ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.⁴

Datganiad o Weledigaeth 4 y strategaeth yw cyflawni gwasanaethau iechyd meddwl yn ddi-dor – sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf yn ddi-oed. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â darparu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl o ansawdd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bawb a fyddai'n elwa arnynt, a bod y gwasanaethau hynny'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac adferiad, gan flaenoriaethu pobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus.

Effeithiau negyddol

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol o weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, na'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, ond byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i gasglu rhagor o dystiolaeth.

Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant?

Drwy ei datganiadau o weledigaeth, egwyddorion ategol a chymau gweithredu arfaethedig, mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn cefnogi'n uniongyrchol y saith nod llesiant cysylltiedig i Gymru yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, gan gynnwys Cymru gydnerth, Cymru iachach, a Chymru sy'n fwy cyfartal. Datblygwyd y strategaeth yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, sy'n dweud bod yn rhaid i ni wneud y canlynol:

- meddwl yn yr hirdymor
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- mabwysiadu dull integredig
- mabwysiadu dull o gydweithio
- ystyried a chynnwys pobl o bob oed a phobl â nodweddion ac anghenion amrywiol

Mae camau gweithredu lefel uchel arfaethedig a pholisïau allweddol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni pob un o'r datganiadau o weledigaeth yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, a fydd yn cyfrannu at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

⁴ Cafodd yr acronym NYTH – rhei Nerth, Ymddiried a Thyfu'n ddiogel a Hybu – ei greu gan bobl ifanc a rhanddeiliaid yn ystod ein sesiynau cydgynhyrchu, ac mae'n nodi'r gwerthoedd craidd y maent eu heisiau gan wasanaethau iechyd meddwl. [Fframwaith NYTH: \(iechyd meddwl a lles\): cyflwyniad | LLYW.CYMRU](#)

Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad

Lluniwyd cynigion gan swyddogion yn y Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed ynghylch datblygu fersiynau drafft y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio mewn cyflwyniad i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i'r dull drafftio cyffredinol ar gyfer y ddwy strategaeth a chymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru y ddwy strategaeth ar 29 Ionawr 2024 ar gyfer ymgynghori.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae "damcaniaeth newid" yn cael ei datblygu ar gyfer Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol (2024-2034) a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Bydd y ddamcaniaeth newid yn nodi'r mecanweithiau a fwriadwyd i sicrhau y bydd y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn cyflawni ei chanlyniadau. Bydd yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer cynllunio gwerthusiad o'r strategaeth. Y bwriad yw comisiynu gwerthusiad o'r strategaeth maes o law.

Yn y strategaeth drwyddi draw, rydym hefyd wedi nodi nifer o ddangosyddion mesuradwy y byddwn yn eu monitro fel rhan o weithredu'r strategaeth. Bydd y rhain, a dangosyddion pellach sydd eto i'w nodi, hefyd yn cefnogi'r gwaith o werthuso'r strategaeth pan gânt eu comisiynu.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cael ei oruchwylio gan Gyd-fwrdd Sicrwydd y Gweinidogion ar gyfer Iechyd Meddwl.